



Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

Regulations made by the Welsh Ministers, laid before Senedd Cymru under section 45R of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 (c. 22), for approval by resolution of Senedd Cymru within twenty-eight days beginning with the day on which the instrument is made, subject to extension for periods of dissolution or recess for more than four days.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 984 (Cy. 221)

2020 No. 984 (W. 221)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Swyddogaethau Awdurdodau
Lleol) (Cymru) 2020**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (Functions of Local
Authorities) (Wales) Regulations
2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination in Wales.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a ledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Mae 4 Rhan i'r Rheoliadau.

The Regulations have 4 Parts.

Mae **Rhan 1** yn cynnwys darpariaethau dehongli. Mae hefyd yn darparu y bod y Rheoliadau yn dod i ben ar 8 Ionawr 2021 oni bai y cânt eu dirymu cyn hynny.

Part 1 contains interpretation provisions. It also provides that the Regulations expire on 8 January 2021 unless they are revoked before then.

Mae **Rhan 2** yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol yng Nghymru i reoli mangreoedd, digwyddiadau a mannau cyhoeddus yn eu hardaloedd er mwyn helpu i reoli'r coronafeirws o fewn eu hardaloedd. Mae hyn yn cynnwys cau mangreoedd a mannau cyhoeddus a dod â digwyddiadau i ben pan fo angen.

Part 2 provides local authorities in Wales with powers to control premises, events and public places in their areas to help control coronavirus within their areas. This includes closing premises and public places and stopping events where necessary.

Mae **Rhan 3** yn parhau â dyletswydd sydd eisoes wedi ei gosod ar awdurdodau lleol, awdurdodau Parc Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gau llwybrau troed cyhoeddus a thir sy'n hygyrch i'r cyhoedd yng Nghymru lle y gall pobl yn ymgynull arwain at risg uchel o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Mae **Rhan 4** yn darparu ar gyfer gofodi'r cyfyngiadau neu'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Part 3 continues a duty already imposed on local authorities, National Park authorities, Natural Resources Wales and the National Trust to close public footpaths and land accessible by the public in Wales where congregation of people may lead to a high risk of exposure to coronavirus.

Part 4 provides for the enforcement of the restrictions or requirements imposed by the Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

Regulations made by the Welsh Ministers, laid before Senedd Cymru under section 45R of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 (c. 22), for approval by resolution of Senedd Cymru within twenty-eight days beginning with the day on which the instrument is made, subject to extension for periods of dissolution or recess for more than four days.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 984 (Cy. 221)

2020 No. 984 (W. 221)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws)
(Swyddogaethau Awdurdodau
Lleol) (Cymru) 2020**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (Functions of Local
Authorities) (Wales) Regulations
2020**

Gwnaed am 4.03 p.m. ar 11 Medi 2020

Made at 4.03 p.m. on 11 September 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 7.30 p.m. ar 11 Medi 2020*

*Laid before Senedd
Cymru at 7.30 p.m. on 11 September 2020*

Yn dod i rym 14 Medi 2020

Coming into force 14 September 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

(1) 1984 p. 22. Mewn osodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi, cymhwyso a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Medi 2020.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

- (a) ystyr “coronafeirws” yw coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);
- (b) mae i “swyddog gorfodaeth” yr ystyr a roddir gan reoliad 15;
- (c) mae i “cyfarwyddyd digwyddiad” yr ystyr a roddir gan reoliad 6;
- (d) ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu cyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;
- (e) mae “mangre” yn cynnwys unrhyw adeilad neu strwythur ac unrhyw dir;
- (f) mae i “cyfarwyddyd mangre” yr ystyr a roddir gan reoliad 5;
- (g) mae i “man cyhoeddus” yr ystyr a roddir gan reoliad 7(2);
- (h) mae i “cyfarwyddyd man cyhoeddus” yr ystyr a roddir gan reoliad 7.

Dod i ben

3.—(1) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y dydd ar 8 Ionawr 2021.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben.

The Welsh Ministers consider that the restrictions and requirements imposed by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

PART 1

Introduction

Title, application and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Functions of Local Authorities) (Wales) Regulations 2020.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) These Regulations come into force on 14 September 2020.

Interpretation

2. In these Regulations—

- (a) “coronavirus” means severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2);
- (b) “enforcement officer” has the meaning given by regulation 15;
- (c) “event direction” has the meaning given by regulation 6;
- (d) “local authority” means the council of a county or county borough in Wales;
- (e) “premises” includes any building or structure and any land;
- (f) “premises direction” has the meaning given by regulation 5;
- (g) “public place” has the meaning given by regulation 7(1);
- (h) “public place direction” has the meaning given by regulation 7.

Expiry

3.—(1) These Regulations expire at the end of the day on 8 January 2021.

(2) This regulation does not affect the validity of anything done pursuant to these Regulations before they expire.

RHAN 2

Cyfarwyddydau awdurdodau lleol mewn perthynas â mangreoedd, digwyddiadau a mannau cyhoeddus

PENNOD 1

Rhoi a dirymu cyfarwyddydau

Yr amodau iechyd y cyhoedd dros roi cyfarwyddydau

4.—(1) Os yw'n ystyried bod yr amodau iechyd y cyhoedd wedi eu bodloni, caiff awdurdod lleol roi—

- (a) cyfarwyddyd mangre o dan reoliad 5;
- (b) cyfarwyddyd digwyddiad o dan reoliad 6;
- (c) cyfarwyddyd man cyhoeddus o dan reoliad 7.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, yr “amodau iechyd y cyhoedd” yw—

- (a) bod y cyfarwyddyd yn ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd,
- (b) bod y cyfarwyddyd yn angenrheidiol at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint gan y coronafeirws yn ardal yr awdurdod lleol, ac
- (c) bod y gwaharddiadau, y gofynion neu'r cyfyngiadau a osodir gan y cyfarwyddyd yn ddull cymesur o gyflawni'r diben hwnnw.

Cyfarwyddydau mangreoedd

5.—(1) Caiff awdurdod lleol roi cyfarwyddyd mangre mewn cysylltiad ag unrhyw fangre yn ei ardal.

(2) Caiff cyfarwyddyd mangre—

- (a) ei gwneud yn ofynnol i'r fangre gael ei chau;
- (b) gosod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â mynd i'r fangre neu ei gadael;
- (c) gosod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â defnyddio'r fangre;
- (d) gosod cyfyngiadau mewn perthynas â nifer y personau neu'r disgrifiad o'r personau a ganiateir yn y fangre.

(3) Ond ni chaniateir i gyfarwyddyd mangre gael ei roi mewn perthynas â mangre sy'n rhan o seilwaith allweddol.

(4) Cyn rhoi cyfarwyddyd mangre, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i'r angen i sicrhau y gall aelodau'r cyhoedd gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

PART 2

Local authority directions in relation to premises, events and public places

CHAPTER 1

Giving and revoking directions

Public health conditions for giving directions

4.—(1) If it considers that the public health conditions are met, a local authority may give—

- (a) a premises direction under regulation 5;
- (b) an event direction under regulation 6;
- (c) a public place direction under regulation 7.

(2) For the purposes of these Regulations, the “public health conditions” are that—

- (a) the direction is a response to a serious and imminent threat to public health,
- (b) the direction is necessary for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection by coronavirus in the local authority's area, and
- (c) the prohibitions, requirements or restrictions imposed by the direction are a proportionate means of achieving that purpose.

Premises directions

5.—(1) A local authority may give a premises direction in respect of any premises in its area.

(2) A premises direction may—

- (a) require the premises to be closed;
- (b) impose restrictions or requirements in relation to entering or leaving the premises;
- (c) impose restrictions or requirements in relation to the use of the premises;
- (d) impose restrictions in relation to the number or description of persons permitted on the premises.

(3) But a premises direction may not be given in relation to premises which form part of critical infrastructure.

(4) Before giving a premises direction, a local authority must have regard to the need to ensure that members of the public have access to essential goods and public services.

(5) Pan fo awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd mangre, rhaid iddo gymryd camau rhesymol i roi rhybudd ymlaen llaw o'r cyfarwyddyd i—

- (a) person sy'n cynnal busnes o'r fangre y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud â hi, a
- (b) (os yw'n wahanol) unrhyw berson sy'n berchen ar y fangre neu sy'n meddiannu'r fangre.

(6) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am fangre y mae cyfarwyddyd mangre yn ymwneud â hi gymryd y camau sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r cyfarwyddyd gymryd effaith.

(7) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, weithredu yn groes i gyfarwyddyd mangre.

Cyfarwyddiadau digwyddiadau

6.—(1) Caiff awdurdod lleol roi cyfarwyddyd digwyddiad mewn cysylltiad ag unrhyw ddigwyddiad a gynhelir, neu y bwriedir ei gynnal, yn ei ardal.

(2) Wrth ystyried a yw'r amodau iechyd y cyhoedd wedi eu bodloni, rhaid i awdurdod lleol, yn benodol, roi sylw i a yw pobl yn ymgynnull yn y digwyddiad yn groes i reoliad 14 neu 14A o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(1), neu a ydynt yn debygol o wneud hynny.

- (3) Caiff cyfarwyddyd digwyddiad—
 - (a) ei gwneud yn ofynnol i'r digwyddiad ddod i ben neu beidio â chael ei gynnal;
 - (b) gosod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â mynd i'r digwyddiad neu ei adael;
 - (c) gosod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â nifer y personau a gaiff fod yn bresennol yn y digwyddiad;

(5) Where a local authority gives a premises direction, it must take reasonable steps to give prior notice of the direction to—

- (a) a person carrying on a business from the premises to which the direction relates, and
- (b) (if different) any person who owns or occupies the premises.

(6) A person responsible for premises to which a premises direction relates must take the steps necessary to comply with the direction as soon as is reasonably practicable after the direction takes effect.

(7) No person may, without reasonable excuse, act in contravention of a premises direction.

Event directions

6.—(1) A local authority may give an event direction in respect of any event held, or proposed to be held, in its area.

(2) In considering whether the public health conditions are met, a local authority must, in particular, have regard to whether people are gathering, or are likely to gather, at the event in contravention of regulation 14 or 14A of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020(1).

- (3) An event direction may—
 - (a) require the event to stop or not to be held;
 - (b) impose restrictions or requirements in relation to entering or leaving the event;
 - (c) impose restrictions or requirements in relation to the number of persons who may attend the event;

(1) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/752 (Cy. 169)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/803 (Cy. 176)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/820 (Cy. 180)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/843 (Cy. 186)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/867 (Cy. 189)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/884 (Cy. 195)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/912 (Cy. 204)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020 (O.S. 2020/961 (Cy. 215)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/978 (Cy. 219)).

(1) S.I. 2020/725 (W. 162), as amended by the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/752 (W. 169)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020 (S.I. 2020/803 (W. 176)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2020 (S.I. 2020/820 (W. 180)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 4) Regulations 2020 (S.I. 2020/843 (W. 186)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 5) Regulations 2020 (S.I. 2020/867 (W. 189)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 6) Regulations 2020 (S.I. 2020/884 (W. 195)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 7) Regulations 2020 (S.I. 2020/912 (W. 204)), the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 8) (Caerphilly) Regulations 2020 (S.I. 2020/961 (W. 215)) and the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) (Amendment) (No. 9) Regulations 2020 (S.I. 2020/978 (W. 219)).

- (d) gosod unrhyw gyfyngiadau neu ofynion eraill mewn perthynas â chynnal y digwyddiad (gan gynnwys, er enghraifft, gofynion sy'n ymwneud â phresenoldeb gwasanaethau meddygol neu'r gwasanaethau brys yn y digwyddiad).

(4) Pan fo awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd digwyddiad rhaid iddo gymryd camau rhesymol i roi rhybudd ymlaen llaw o'r cyfarwyddyd i—

- (a) person sy'n ymwneud â threfnu'r digwyddiad, a
- (b) (os yw'n wahanol) unrhyw berson sy'n berchen ar y fangre neu sy'n meddiannu'r fangre lle y mae'r digwyddiad yn digwydd neu lle y bwriedir iddo ddigwydd.

(5) Rhaid i berson sy'n ymwneud â threfnu digwyddiad y mae cyfarwyddyd digwyddiad yn ymwneud ag ef gymryd y camau sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r cyfarwyddyd gymryd effaith.

(6) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, weithredu yn groes i gyfarwyddyd digwyddiad.

(7) At ddibenion y Rhan hon, nid yw person yn ymwneud â threfnu digwyddiad os nad yw'r person ond yn ymwneud â'r digwyddiad, neu os na fyddai ond yn ymwneud â'r digwyddiad, drwy fod yn bresennol ynddo.

Cyfarwyddydau manau cyhoeddus

7.—(1) Caiff awdurdod lleol roi cyfarwyddyd man cyhoeddus mewn cysylltiad ag unrhyw fan cyhoeddus yn ardal yr awdurdod.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, ystyr “man cyhoeddus” yw man yn yr awyr agored y mae gan y cyhoedd fynediad iddo neu y caniateir i'r cyhoedd gael mynediad iddo, pa un ai drwy dalu neu fel arall, gan gynnwys—

- (a) tir sy'n ardd gyhoeddus neu a ddefnyddir at ddiben hamdden gan aelodau'r cyhoedd;
- (b) tir sy'n “cefn gwlad agored” fel y diffinnir “open country” yn adran 59(2) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949(1), fel y'i darllenir gydag adran 16 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968(2);
- (c) unrhyw briffordd y mae gan y cyhoedd fynediad iddi.

- (d) impose any other restrictions or requirements in relation to the holding of the event (including, for example, requirements relating to the attendance of medical or emergency services at the event).

(4) Where a local authority gives an event direction it must take reasonable steps to give prior notice of the direction to—

- (a) a person involved in the organisation of the event, and
- (b) (if different) any person who owns or occupies the premises at which the event takes place or is proposed to take place.

(5) A person involved in organising an event to which an event direction relates must take the steps necessary to comply with the direction as soon as is reasonably practicable after the direction takes effect.

(6) No person may, without reasonable excuse, act in contravention of an event direction.

(7) For the purposes of this Part, a person is not involved in organising an event if the person's only involvement is, or would be, attending it.

Public place directions

7.—(1) A local authority may give a public place direction in respect of any public place in the authority's area.

(2) For the purposes of these Regulations, “public place” means an outdoor place to which the public have or are permitted access, whether on payment or otherwise, including—

- (a) land laid out as a public garden or used for the purpose of recreation by members of the public;
- (b) land which is “open country” as defined in section 59(2) of the National Parks and Access to the Countryside Act 1949(1), as read with section 16 of the Countryside Act 1968(2);
- (c) any highway to which the public has access.

(1) 1949 p. 97.

(2) 1968 p. 41. Mae adran 16 wedi ei diwygio gan adran 111 o Ddeddf Trafnidiaeth 1968 (p. 73), Atodlen 27 i Ddeddf Dŵr 1989 (p. 15) ac O.S. 2012/1659. Mae diwygiadau eraill i adran 16 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(1) 1949 c. 97.

(2) 1968 c. 41. Section 16 has been amended by section 111 of the Transport Act 1968 (c. 73), Schedule 27 to the Water Act 1989 (c. 15) and S.I. 2012/1659. There are other amendments to section 16 which are not relevant to these Regulations.

(3) Ond nid yw man cyhoeddus yn cynnwys—

- (a) “tir mynediad” o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 14(7)(c);
- (b) “llwybr cyhoeddus” o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 14(7)(b).

(4) Caiff cyfarwyddyd man cyhoeddus osod gwaharddiadau, gofynion neu gyfyngiadau mewn perthynas â mynediad i'r man cyhoeddus (gan gynnwys, yn benodol, gwahardd mynediad ar adegau penodedig).

(5) Rhaid i gyfarwyddyd man cyhoeddus ddisgrifio'r man cyhoeddus yn ddigon manwl er mwyn gallu canfod ei ffiniau.

(6) Pan fo awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd man cyhoeddus rhaid iddo gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol er mwyn—

- (a) atal neu gyfyngu mynediad y cyhoedd i'r man cyhoeddus y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef yn unol â'r cyfarwyddyd (gan gynnwys codi a chynnal hysbysiadau mewn mannau amlwg sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd am y cyfarwyddyd);
- (b) rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r cyfarwyddyd i bersonau sy'n cynnal busnes o fangre o fewn y man cyhoeddus;
- (c) sicrhau y dygir y cyfarwyddyd i sylw unrhyw berson sy'n berchen ar unrhyw fangre yn y man cyhoeddus, sy'n meddiannu unrhyw fangre ynddo neu sy'n gyfrifol am unrhyw fangre ynddo.

(7) Rhaid i unrhyw berson, ac eithrio awdurdod lleol, sy'n berchen ar fangre mewn man cyhoeddus y mae cyfarwyddyd man cyhoeddus yn ymwneud ag ef, sy'n meddiannu mangre o'r fath neu sy'n gyfrifol am fangre o'r fath gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol er mwyn atal neu gyfyngu mynediad y cyhoedd i'r fangre yn unol â'r cyfarwyddyd.

(8) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, fynd i fan cyhoeddus y mae cyfarwyddyd man cyhoeddus yn ymwneud ag ef neu aros yn y man cyhoeddus hwnnw yn groes i waharddiad, gofyniad neu gyfyngiad a osodir gan y cyfarwyddyd.

(9) Ni chaiff awdurdod lleol roi cyfarwyddyd man cyhoeddus mewn cysylltiad â man cyhoeddus sy'n cynnwys eiddo y mae adran 73 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1) (eiddo'r Goron) yn gymwys iddo.

(3) But a public place does not include—

- (a) “access land” within the meaning given in regulation 14(7)(c);
- (b) a “public path” within the meaning given in regulation 14(7)(b).

(4) A public place direction may impose prohibitions, requirements or restrictions in relation to access to the public place (including, in particular, prohibiting access at specified times).

(5) A public place direction must describe the public place in sufficient detail to enable its boundaries to be determined.

(6) Where a local authority gives a public place direction it must take such steps as are reasonably practicable to—

- (a) prevent or restrict public access to the public place to which the direction relates in accordance with the direction (including erecting and maintaining notices in prominent places informing the public of the direction);
- (b) give prior notice of the direction to persons carrying on a business from premises within the public place;
- (c) ensure that the direction is brought to the attention of any person who owns, occupies or is responsible for any premises in the public place.

(7) Any person, other than a local authority, who owns, occupies or is responsible for premises in a public place to which a public place direction relates must take such steps as are reasonably practicable to prevent or restrict public access to the premises in accordance with the direction.

(8) No person may, without reasonable excuse, enter or remain in a public place to which a public place direction relates in contravention of a prohibition, requirement or restriction imposed by the direction.

(9) A local authority may not give a public place direction in respect of a public place which includes property to which section 73 of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1) (Crown property) applies.

(1) Mae adran 73 wedi ei diwygio gan Atodlen 11 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14).

(1) Section 73 has been amended by Schedule 11 to the Health and Social Care Act 2008 (c. 14).

(10) Ond caiff awdurdod lleol roi cyfarwyddyd man cyhoeddus mewn cysylltiad â'r man hwnnw os yw'r awdurdod wedi ymrwymo i gytundeb o dan is-adran (2) o adran 73 â'r awdurdod priodol (o fewn yr ystyr a roddir i "appropriate authority" gan yr adran honno) fod—

- (a) adran 45C o'r Ddeddf honno, a
- (b) y Rheoliadau hyn,

yn gymwys i'r eiddo (yn ddarostyngedig i unrhyw delerau a gynhwysir yn y cytundeb).

Adolygu a dirymu

8.—(1) Pan fo awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd o dan y Rhan hon, rhaid i'r awdurdod adolygu a yw'r amodau iechyd y cyhoedd yn parhau i gael eu bodloni mewn perthynas â'r cyfarwyddyd—

- (a) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 7 niwrnod sy'n dechrau drannoeth y diwrnod y rhoddir y cyfarwyddyd, a
- (b) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 7 niwrnod.

(2) Os yw'r awdurdod lleol, ar ôl cynnal adolygiad o dan baragraff (1), yn ystyried nad yw'r amodau iechyd y cyhoedd yn cael eu bodloni mwyach, rhaid i'r awdurdod lleol ddirymu'r cyfarwyddyd.

(3) Nid yw paragraff (2) yn atal awdurdod lleol rhag dirymu cyfarwyddyd ar unrhyw adeg os yw'r awdurdod yn ystyried nad yw'r amodau iechyd y cyhoedd wedi eu bodloni mwyach mewn perthynas â'r cyfarwyddyd.

(4) Caiff cyfarwyddyd ei ddirymu drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i bob person y rhoddir y cyfarwyddyd iddo.

(5) Mae paragraffau (2) a (3) o reoliad 11 yn gymwys i ddirymiad fel y maent yn gymwys i gyfarwyddyd.

(6) Mae cyfarwyddyd yn peidio â chael effaith ar adeg rhoi'r hysbysiad o ddirymiad.

Gofyniad i roi sylw i gyngor neu ganllawiau ac i ymgynghori

9. Wrth benderfynu pa un ai i roi neu ddirymu cyfarwyddyd o dan y Rhan hon rhaid i awdurdod lleol—

- (a) roi sylw—
 - (i) i unrhyw gyngor a roddir iddo gan Gyfarwyddwr Diogelu'r Cyhoedd yr awdurdod;
 - (ii) i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch cyfarwyddydau o dan y Rhan hon, a

(10) But a local authority may give a public place direction in respect of such a place if the authority has entered into an agreement under subsection (2) of section 73 with the appropriate authority (within the meaning given by that section) that—

- (a) section 45C of that Act, and
- (b) these Regulations,

apply to the property (subject to such terms as may be included in the agreement).

Review and revocation

8.—(1) Where a local authority gives a direction under this Part, the authority must review whether the public health conditions continue to be met in relation to the direction—

- (a) at least once in the period of 7 days beginning on the day after the day direction is given, and
- (b) at least once in every subsequent period of 7 days.

(2) If, on a review under paragraph (1), the local authority considers that the public health conditions are no longer met, the local authority must revoke the direction.

(3) Paragraph (2) does not prevent a local authority from revoking a direction at any time if the authority considers that the public health conditions are no longer met in relation to the direction.

(4) A direction is revoked by giving notice in writing to each person to whom the direction was given.

(5) Paragraphs (2) and (3) of regulation 11 apply to a revocation as they apply to a direction.

(6) A direction ceases to have effect at the time notice of revocation is given.

Requirement to have regard to advice or guidance and to consult

9. In determining whether to give or revoke a direction under this Part a local authority must—

- (a) have regard to—
 - (i) any advice given to it the authority's Director of Public Protection;
 - (ii) any guidance issued by the Welsh Ministers about directions under this Part, and

- (b) ymgynghori â Gweinidogion Cymru os yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny.

PENNOD 2

Ffurf a gweithdrefn

Ffurf a chynnwys cyfarwyddydau

10. Rhaid i gyfarwyddyd a roddir o dan y Rhan hon—

- (a) bod yn ysgrifenedig;
- (b) cynnwys disgrifiad o'r fangre, y digwyddiad neu'r man cyhoeddus y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud â hi neu ag ef (ac yn achos cyfarwyddyd man cyhoeddus gweler rheoliad 7(5));
- (c) datgan y dyddiad a'r amser y mae pob gwaharddiad, gofyniad neu gyfyngiad a osodir gan y cyfarwyddyd yn cymryd effaith (na chaniateir iddo fod yn gynharach na'r adeg y rhoddir y cyfarwyddyd);
- (d) datgan y dyddiad a'r amser y mae pob gwaharddiad, gofyniad neu gyfyngiad o'r fath yn peidio â chael effaith (na chaniateir iddo fod yn fwy nag 21 o ddiwrnodau ar ôl iddo gymryd effaith);
- (e) nodi'r rhesymau pam y mae'r awdurdod lleol yn ystyried bod yr amodau iechyd y cyhoedd wedi eu bodloni mewn perthynas â'r cyfarwyddyd;
- (f) rhoi manylion am yr hawl i apelio, a'r hawl i gyflwyno sylwadau, a roddir gan reoliad 12.

Rhoi cyfarwyddyd

11.—(1) Mae awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd o dan y Rhan hon drwy roi'r cyfarwyddyd yn ysgrifenedig—

- (a) yn achos cyfarwyddyd mangre, i—
 - (i) person sy'n cynnal busnes o'r fangre y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud â hi, a
 - (ii) (os yw'n wahanol) person sy'n berchen ar y fangre, sy'n meddiannu'r fangre neu sydd fel arall yn gyfrifol am y fangre;
- (b) yn achos cyfarwyddyd digwyddiad, i—
 - (i) person sy'n ymwneud â threfnu'r digwyddiad y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef, a

- (b) consult the Welsh Ministers if it is reasonably practicable to do so.

CHAPTER 2

Form and procedure

Form and content of directions

10. A direction given under this Part must—

- (a) be in writing;
- (b) contain a description of the premises, event or public place to which the direction relates (and in the case of a public place direction see regulation 7(5));
- (c) state the date and time from which each prohibition, requirement or restriction imposed by the direction takes effect (which must not be earlier than when the direction is given);
- (d) state the date and time at which each such prohibition, requirement or restriction ceases to have effect (which must be no later than 21 days after it takes effect);
- (e) set out the reasons why the local authority considers the public health conditions to be met in relation to the direction;
- (f) give details of the right of appeal, and the right to make representations, conferred by regulation 12.

Giving a direction

11.—(1) A local authority gives a direction under this Part by giving the direction in writing—

- (a) in the case of a premises direction, to—
 - (i) a person carrying on a business from the premises to which the direction relates, and
 - (ii) (if different) a person who owns, occupies or is otherwise responsible for the premises;
- (b) in the case of an event direction, to—
 - (i) a person involved in organising the event to which the direction relates, and

(ii) (os yw'n wahanol) person sy'n berchen ar y fangre lle y mae'r digwyddiad yn digwydd neu lle y bwriedir iddo ddigwydd, sy'n meddiannu'r fangre honno neu sydd fel arall yn gyfrifol am y fangre honno;

- (c) yn achos cyfarwyddyd man cyhoeddus, i—
- (i) person sy'n cynnal busnes o fangre o fewn y man cyhoeddus y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef, a
 - (ii) pob person sy'n berchen ar unrhyw fangre yn y man cyhoeddus, sy'n meddiannu unrhyw fangre yn y man cyhoeddus neu sydd fel arall yn gyfrifol am unrhyw fangre yn y man cyhoeddus.

(2) Os nad yw'n rhesymol ymarferol i awdurdod lleol roi cyfarwyddyd yn unol â pharagraff (1), mae'r cyfarwyddyd i'w drin fel pe bai wedi ei roi yn unol â'r paragraff hwnnw pan y'i cyhoeddir yn y modd y mae'r awdurdod lleol yn ystyried ei fod yn briodol i'w ddwyn i sylw personau y gall y cyfarwyddyd effeithio arnynt.

(3) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i awdurdod lleol roi cyfarwyddyd o dan y Rhan hon rhaid i'r awdurdod lleol—

- (a) rhoi copi o'r cyfarwyddyd i unrhyw berson arall a enwir yn y cyfarwyddyd,
- (b) anfon copi o'r cyfarwyddyd i—
 - (i) Gweinidogion Cymru,
 - (ii) pob awdurdod lleol arall y mae ei ardal yn gyfagos i ardal yr awdurdod,
 - (iii) pan fo ardal yr awdurdod lleol yn gyfagos i ardal cyngor sir neu gyngor bwrdeistref yn Lloegr, y cyngor hwnnw, ac
- (c) cyhoeddi'r cyfarwyddyd yn y modd y mae'r awdurdod lleol yn ystyried ei fod yn briodol er mwyn ei ddwyn i sylw personau y gall y cyfarwyddyd effeithio arnynt.

Apelau a sylwadau

12.—(1) Yn y rheoliad hwn, ystyr “person a chanddo fuddiant” yw—

- (a) yn achos cyfarwyddyd mangre—
 - (i) person sy'n cynnal busnes o'r fangre y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud â hi;
 - (ii) (os yw'n wahanol) person sy'n berchen ar y fangre neu sy'n meddiannu'r fangre;

(ii) (if different) a person who owns, occupies or is otherwise responsible for the premises at which the event takes place or is proposed to take place;

- (c) in the case of a public place direction, to—
- (i) a person carrying on a business from premises within the public place to which the direction relates, and
 - (ii) each person who owns, occupies or is otherwise responsible for any premises in the public place.

(2) If it is not reasonably practicable for a local authority to give a direction in accordance with paragraph (1), the direction is to be treated as given in accordance with that paragraph when it is published in such manner as the local authority considers appropriate to bring it to the attention of persons who may be affected by it.

(3) As soon as reasonably practicable after a local authority gives a direction under this Part the local authority must—

- (a) give a copy of the direction to any other person named in the direction,
- (b) send a copy of the direction to—
 - (i) the Welsh Ministers,
 - (ii) every other local authority whose area is adjacent to the authority's area,
 - (iii) where the local authority's area is adjacent to the area of a county or district council in England, that council, and
- (c) publish the direction in such manner as the local authority considers appropriate to bring it to the attention of persons who may be affected by it.

Appeals and representations

12.—(1) In this regulation, “interested person” means—

- (a) in the case of a premises direction—
 - (i) a person carrying on a business from the premises to which the direction relates;
 - (ii) (if different) a person who owns or occupies the premises;

- (b) yn achos cyfarwyddyd digwyddiad—
- (i) person sy'n ymwneud â threfnu'r digwyddiad y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef;
 - (ii) (os yw'n wahanol) person sy'n berchen ar y fangre lle y mae'r digwyddiad yn digwydd neu lle y bwriedir iddo ddigwydd neu sy'n meddiannu'r fangre honno;
- (c) yn achos cyfarwyddyd man cyhoeddus—
- (i) person sy'n cynnal busnes o fangre o fewn y man cyhoeddus y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef;
 - (ii) person sy'n berchen ar unrhyw fangre yn y man cyhoeddus, sy'n meddiannu unrhyw fangre yn y man cyhoeddus neu sy'n gyfrifol am unrhyw fangre yn y man cyhoeddus.
- (2) Caiff person a chanddo fuddiant—
- (a) apelio yn erbyn y cyfarwyddyd i lys ynadon drwy gŵyn am orchymyn, ac mae Deddf Llysoedd Ynadon 1980(1) yn gymwys i'r achos;
 - (b) cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch y cyfarwyddyd.
- (3) Pan fo person a chanddo fuddiant yn cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru o dan y rheoliad hwn rhaid i Weinidogion Cymru—
- (a) ystyried y sylwadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a
 - (b) penderfynu a fyddai'n briodol arfer y pŵer yn rheoliad 13(1).
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu rhesymau ysgrifenedig dros y penderfyniad ym mharagraff (3)(b) i—
- (a) y person a chanddo fuddiant, a
 - (b) yr awdurdod lleol a roddodd y cyfarwyddyd.
- (5) Nid yw cyflwyno sylwadau o dan baragraff (2)(b) yn effeithio ar hawl person a chanddo fuddiant i apelio o dan baragraff (2)(a).

(1) 1980 p. 43.

- (b) in the case of an event direction—
- (i) a person involved in organising the event to which the direction relates;
 - (ii) (if different) a person who owns or occupies the premises at which the event takes place or is proposed to take place;
- (c) in the case of a public place direction—
- (i) a person carrying on a business from premises within the public place to which the direction relates;
 - (ii) a person who owns, occupies or is responsible for any premises in the public place.
- (2) An interested person may—
- (a) appeal against the direction to a magistrates' court by way of complaint for an order, and the Magistrates' Courts Act 1980(1) applies to the proceedings;
 - (b) make representations to the Welsh Ministers about the direction.
- (3) Where an interested person makes representations to the Welsh Ministers under this regulation the Welsh Ministers must—
- (a) consider the representations as soon as is reasonably practicable, and
 - (b) decide whether it would be appropriate to exercise the power in regulation 13(1).
- (4) The Welsh Ministers must provide written reasons for the decision in paragraph (3)(b) to—
- (a) the interested person, and
 - (b) the local authority which gave the direction.
- (5) Making representations under paragraph (2)(b) does not affect an interested person's right of appeal under paragraph (2)(a).

(1) 1980 c. 43.

PENNOD 3

Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud dirymiad yn ofynnol

Pŵer Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddirymu cyfarwyddyd

13.—(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried nad yw'r amodau iechyd y cyhoedd wedi eu bodloni mwyach mewn perthynas â chyfarwyddyd a roddir gan awdurdod lleol o dan y Rhan hon, rhaid i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ddirymu'r cyfarwyddyd.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddirymu cyfarwyddyd o dan y rheoliad hwn—

- (a) nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol ystyried a yw'r amodau iechyd y cyhoedd yn parhau i gael eu bodloni mewn perthynas â'r cyfarwyddyd, a
- (b) nid yw rheoliad 9 yn gymwys.

(3) Cyn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddirymu cyfarwyddyd o dan y rheoliad hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Phrif Swyddog Meddygol Cymru.

RHAN 3

Dyletswydd i gau rhai llwybrau cyhoeddus a thir mynediad

Cau llwybrau cyhoeddus a thir mynediad

14.—(1) Pan fo paragraff (2) yn gymwys i lwybr cyhoeddus neu dir mynediad yn ardal awdurdod perthnasol, rhaid i'r awdurdod perthnasol—

- (a) cau'r llwybr cyhoeddus neu'r tir mynediad, a
- (b) ei gadw ar gau tan yr adeg pan fydd yr awdurdod yn ystyried nad yw'r cau yn angenrheidiol mwyach i atal, i ddiogelu rhag, i reoli neu i ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint â'r coronafeirws yn ei ardal.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i'r llwybrau cyhoeddus a'r tir mynediad yn ardal awdurdod perthnasol y mae'n ystyried—

- (a) ei bod yn debygol y bydd niferoedd mawr o bobl yn ymgynnull neu'n dod yn agos i'w gilydd arnynt, neu
- (b) bod eu defnydd fel arall yn peri risg uchel o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

CHAPTER 3

Welsh Ministers' power to require revocation

Power of Welsh Ministers to require a local authority to revoke a direction

13.—(1) If the Welsh Ministers consider that the public health conditions are no longer met in relation to a direction given by a local authority under this Part, the Welsh Ministers must require the authority to revoke the direction.

(2) Where the Welsh Ministers require a local authority to revoke a direction under this regulation—

- (a) the local authority is not required to consider whether the public health conditions continue to be met in relation to the direction, and
- (b) regulation 9 does not apply.

(3) Before requiring a local authority to revoke a direction under this regulation, the Welsh Ministers must consult the Chief Medical Officer for Wales.

PART 3

Duty to close certain public paths and access land

Closure of public paths and access land

14.—(1) Where paragraph (2) applies to a public path or access land in the area of a relevant authority, the relevant authority must—

- (a) close the public path or access land, and
- (b) keep it closed until the time when the authority considers that closure is no longer necessary to prevent, protect against, control or provide a public health response to the incidence or spread of infection with coronavirus in its area.

(2) This paragraph applies to the public paths and access land in its area a relevant authority considers—

- (a) to be liable to large numbers of people congregating or being in close proximity to each other, or
- (b) the use of which otherwise poses a high risk of exposure to coronavirus.

(3) Pan fo llwybr cyhoeddus neu dir mynediad wedi ei gau o dan—

- (a) rheoliad 4 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws: Cau Busnesau Hamdden, Llwybrau Troed a Thir Mynediad) (Cymru) 2020(1),
- (b) rheoliad 9 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(2),
- (c) rheoliad 11 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(3),

mae'r llwybr neu'r tir i'w drin fel pe bai wedi ei gau o dan baragraff (1) o'r rheoliad hwn.

(4) Ni chaiff unrhyw berson ddefnyddio llwybr cyhoeddus neu dir mynediad sydd ar gau yn rhinwedd paragraff (1) oni bai ei fod wedi ei awdurdodi gan yr awdurdod perthnasol.

(5) Rhaid i'r awdurdod perthnasol—

- (a) cyhoeddi rhestr o lwybrau cyhoeddus neu dir mynediad sydd ar gau yn ei ardal ar wefan;
- (b) codi a chynnal hysbysiadau mewn mannau amlwg sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd bod llwybr cyhoeddus neu dir mynediad ar gau.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at lwybr cyhoeddus neu dir mynediad yn cynnwys rhannau o lwybr cyhoeddus neu dir mynediad.

(7) Yn y rheoliad hwn—

- (a) ystyr “awdurdod perthnasol” yw—
 - (i) awdurdod lleol,
 - (ii) awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru,
 - (iii) Cyfoeth Naturiol Cymru, neu
 - (iv) yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol;
- (b) ystyr “llwybr cyhoeddus” yw llwybr troed, llwybr ceffylau, cilffordd, cilffordd gyfyngedig neu lwybr beiciau ac—
 - (i) mae i “llwybr troed”, “llwybr ceffylau” a “llwybr beiciau” yr un ystyr ag a roddir i “footpath”, “bridleway” a “cycle track” yn adran 329(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980(4);

(3) Where a public path or access land has been closed under—

- (a) regulation 4 of the Health Protection (Coronavirus: Closure of Leisure Businesses, Footpaths and Access Land) (Wales) Regulations 2020(1),
- (b) regulation 9 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020(2),
- (c) regulation 11 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020(3),

the path or land is to be treated as if it were closed under paragraph (1) of this regulation.

(4) No person may use a public path or access land closed by virtue of paragraph (1) unless authorised by the relevant authority.

(5) The relevant authority must—

- (a) publish a list of public paths or access land closed in its area on a website;
- (b) erect and maintain notices in prominent places informing the public of the closure of a public path or access land.

(6) For the purposes of this regulation references to a public path or access land include parts of a public path or access land.

(7) In this regulation—

- (a) the “relevant authority” means—
 - (i) a local authority,
 - (ii) a National Park authority in Wales,
 - (iii) Natural Resources Wales, or
 - (iv) the National Trust;
- (b) “public path” means a footpath, bridleway, byway, restricted byway or cycle track and—
 - (i) “footpath”, “bridleway” and “cycle track” have the same meaning as in section 329(1) of the Highways Act 1980(4);

(1) O.S. 2020/334 (Cy. 76), a ddirymwyd gan O.S. 2020/353 (Cy. 80).
(2) O.S. 2020/353 (Cy. 80), a ddirymwyd gan O.S. 2020/725 (Cy. 162).
(3) Mae rheoliad 11 wedi ei ddirymu gan O.S. 2020/978 (Cy. 219).
(4) Diwygiwyd adran 329 gan adran 1 o Ddeddf Llwybrau Beiciau 1984 (p. 38) a pharagraff 21 o Atodlen 3 i Ddeddf Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Canlyniadol) 1988 (p. 54).

(1) S.I. 2020/334 (W. 76), revoked by S.I. 2020/353 (W. 80).
(2) S.I. 2020/353 (W. 80), revoked by S.I. 2020/725 (W. 162).
(3) Regulation 11 has been revoked by S.I. 2020/978 (W. 219).
(4) Section 329 was amended by section 1 of the Cycle Tracks Act 1984 (c. 38) and paragraph 21 of Schedule 3 to the Road Traffic (Consequential Provisions) Act 1988 (c. 54).

- (ii) ystyr “cilffordd” yw cilffordd sydd ar agor i bob traffig o fewn yr ystyr a roddir i “byway open to all traffic” gan adran 66(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(1);
- (iii) mae i “cilffordd gyfyngedig” yr ystyr a roddir i “restricted byway” gan adran 48(4) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(2);
- (c) mae “tir mynediad” yn cynnwys tir y mae gan y cyhoedd fynediad iddo yn rhinwedd ei berchnogaeth gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ond fel arall mae iddo yr un ystyr ag “access land” yn adran 1(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(3).
- (ii) “byway” means a “byway open to all traffic” within the meaning given by section 66(1) of the Wildlife and Countryside Act 1981(1);
- (iii) “restricted byway” has the meaning given by section 48(4) of the Countryside and Rights of Way Act 2000(2);
- (c) “access land” includes land to which the public has access by virtue of its ownership by the National Trust, but otherwise has the same meaning as in section 1(1) of the Countryside and Rights of Way Act 2000(3).

RHAN 4

Gorfodi

Swyddogion gorfodaeth

15.—(1) At ddibenion rheoliadau 16, 17 a 19, ystyr “swyddog gorfodaeth” yw—

- (a) cwnstabl,
- (b) swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, neu
- (c) person sydd wedi ei ddynodi gan—
 - (i) Gweinidogion Cymru,
 - (ii) awdurdod lleol,
 - (iii) awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, neu
 - (iv) Cyfoeth Naturiol Cymru,
 at ddibenion rheoliadau 16 i 19 (ond gweler paragraff (2)).

(2) Ni chaiff person sydd wedi ei ddynodi gan awdurdod Parc Cenedlaethol neu Gyfoeth Naturiol Cymru arfer swyddogaethau swyddog gorfodaeth ond mewn perthynas â thorri'r gofyniad yn rheoliad 14(4) (neu achos honedig o'i dorri).

Camau gorfodi

16.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth roi hysbysiad cydymffurfio i berson os oes gan y swyddog sail resymol dros amau bod y person—

PART 4

Enforcement

Enforcement officers

15.—(1) For the purposes of regulations 16, 17 and 19, an “enforcement officer” means—

- (a) a constable,
- (b) a police community support officer, or
- (c) a person designated by—
 - (i) the Welsh Ministers,
 - (ii) a local authority,
 - (iii) a National Park authority in Wales, or
 - (iv) Natural Resources Wales,
 for the purposes of regulations 16 to 19 (but see paragraph (2)).

(2) A person designated by a National Park authority or Natural Resources Wales may exercise an enforcement officer's functions only in relation to a contravention (or alleged contravention) of the requirement in regulation 14(4).

Enforcement actions

16.—(1) An enforcement officer may give a compliance notice to a person if the officer has reasonable grounds for suspecting that the person—

(1) 1981 p. 69.
 (2) 2000 p. 37.
 (3) Diwygiwyd adran 1(1) gan adran 302(2)(a) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23).

(1) 1981 c. 69.
 (2) 2000 c. 37.
 (3) Section 1(1) was amended by section 302(2)(a) of the Marine and Coastal Access Act 2009 (c. 23).

- (a) yn gweithredu yn groes i gyfarwyddyd mangre, cyfarwyddyd digwyddiad neu gyfarwyddyd man cyhoeddus, neu
- (b) yn methu, neu wedi methu, â chymryd camau sy'n ofynnol o dan reoliad 5(6), 6(5) neu 7(7).

(2) Caiff hysbysiad cydymffurfio bennu mesurau y mae rhaid i'r person y'i rhoddir iddo eu cymryd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol er mwyn—

- (a) atal y person hwnnw rhag parhau i weithredu yn groes i'r cyfarwyddyd, neu
- (b) cywiro'r methiant i gymryd camau.

(3) Pan fo gan gwnstabl sail resymol dros amau bod person mewn mangre yn groes i gyfarwyddyd mangre, caiff y cwnstabl—

- (a) cyfarwyddo'r person i adael y fangre;
- (b) symud y person o'r fangre.

(4) Pan fo gan gwnstabl sail resymol dros amau bod digwyddiad yn cael ei gynnal yn groes i gyfarwyddyd digwyddiad, caiff y cwnstabl—

- (a) cyfarwyddo bod digwyddiad yn dod i ben;
- (b) cyfarwyddo person i adael y digwyddiad;
- (c) symud person o'r digwyddiad.

(5) Pan fo gan gwnstabl sail resymol dros amau bod person mewn man cyhoeddus yn groes i gyfarwyddyd man cyhoeddus, caiff y cwnstabl—

- (a) cyfarwyddo'r person i adael y man;
- (b) symud y person o'r man.

(6) Caiff cwnstabl—

- (a) wrth arfer y pŵer ym mharagraff (3), (4) neu (5), gyfarwyddo person i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r cwnstabl yn ystyried eu bod yn angenrheidiol;
- (b) defnyddio grym rhesymol wrth arfer y pŵer ym mharagraff (3)(b), (4)(c) neu (5)(b).

(7) Pan fo gan gwnstabl sail resymol dros amau bod person y cyfeirir ato ym mharagraff (3), (4) neu (5) yn blentyn ("P") gydag unigolyn ("U") a chanddo gyfrifoldeb dros P—

- (a) caiff y cwnstabl gyfarwyddo U i sicrhau bod C yn gadael y fangre, y digwyddiad neu'r man cyhoeddus, yn ôl y digwydd, a
- (b) rhaid i U, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu gyfarwyddiad a roddir gan y cwnstabl i P.

- (a) is acting in contravention of a premises direction, event direction or public place direction, or
- (b) is failing, or has failed, to take the steps required under regulation 5(6), 6(5) or 7(7).

(2) A compliance notice may specify measures that the person to whom it is given must take as soon as is reasonably practicable so as to—

- (a) prevent that person from continuing to act in contravention of the direction, or
- (b) rectify the failure to take the steps.

(3) Where a constable has reasonable grounds for suspecting that a person is on premises in contravention of a premises direction, the constable may—

- (a) direct the person to leave the premises;
- (b) remove the person from the premises.

(4) Where a constable has reasonable grounds for suspecting that an event is being held in contravention of an event direction, the constable may—

- (a) direct the event to stop;
- (b) direct a person to leave the event;
- (c) remove a person from the event.

(5) Where a constable has reasonable grounds for suspecting that a person is in a public place in contravention of a public place direction, the constable may—

- (a) direct the person to leave the place;
- (b) remove the person from the place.

(6) A constable may—

- (a) when exercising the power in paragraph (3), (4) or (5) direct a person to follow such instructions as the constable considers necessary;
- (b) use reasonable force in the exercise of the power in paragraph (3)(b), (4)(c) or (5)(b).

(7) Where a constable has reasonable grounds to suspect that the person referred to in paragraph (3), (4) or (5) is a child ("C") accompanied by an individual ("I") who has responsibility for C—

- (a) the constable may direct I to ensure that C leaves the premises, event or public place, as the case may be, and
- (b) I must, so far as reasonably practicable, ensure that C complies with any direction or instruction given by the constable to C.

(8) Os oes gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person yn torri (neu ar fin torri) rheoliad 14(4), caiff y swyddog symud y person o lwybr cyhoeddus neu dir mynediad (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 14(7)) sydd ar gau (neu sy'n cael ei gau) yn rhinwedd rheoliad 14(1), a chaiff ddefnyddio grym rhesymol i wneud hynny.

(9) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod y person y cyfeirir ato ym mharagraff (8) yn blentyn (“P”) gydag unigolyn (“U”) a chanddo gyfrifoldeb dros P—

- (a) caiff y swyddog gyfarwyddo U i sicrhau bod C yn gadael y man cyhoeddus neu'r tir mynediad, a
- (b) rhaid i U, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu gyfarwyddiad a roddir gan y swyddog i C.

(10) At ddibenion paragraffau (7) a (9), mae gan U gyfrifoldeb dros blentyn os oes gan U—

- (a) gwarchodaeth neu ofal am y plentyn am y tro, neu
- (b) cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

(11) Caiff swyddog gorfodaeth gymryd camau gorfodi eraill i hwyluso arfer pŵer a roddir i'r swyddog gan y rheoliad hwn neu reoliad 17.

(12) Ni chaiff swyddog gorfodaeth ond arfer pŵer dan y rheoliad hwn neu reoliad 17 os yw'r swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny.

(13) Mae cyfeiriadau yn y rheoliad hwn at “cwnstabl” i'w darllen fel pe baent yn cynnwys swyddog cymorth cymunedol yr heddlu.

Pŵer mynd i mewn

17.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth fynd i fangre i gymryd camau gorfodi, neu i hwyluso cymryd camau gorfodi, o dan reoliad 16.

(2) Caiff swyddog gorfodaeth sy'n mynd i fangre yn unol â pharagraff (1)—

- (a) defnyddio grym rhesymol i fynd i'r fangre;
- (b) cymryd unrhyw bersonau eraill, cyfarpar a deunyddiau i'r fangre y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn briodol.

(3) Rhaid i swyddog gorfodaeth sy'n mynd i fangre yn unol â pharagraff (1)—

- (a) os gofynnir iddo gan berson yn y fangre, ddangos tystiolaeth o bwy yw'r swyddog ac amlinellu at ba ddiben yr arferir y pŵer;

(8) If an enforcement officer has reasonable grounds to suspect that a person is contravening (or is about to contravene) regulation 14(4), the officer may remove the person from a public path or access land (within the meaning given by regulation 14(7)) which is closed (or is being closed) by virtue of regulation 14(1), and may use reasonable force to do so.

(9) Where an enforcement officer has reasonable grounds to suspect that the person referred to in paragraph (9) is a child (“C”) accompanied by an individual (“I”) who has responsibility for C—

- (a) the officer may direct I to ensure that C leaves the public place or access land, and
- (b) I must, so far as reasonably practicable, ensure that C complies with any direction or instruction given by the officer to C.

(10) For the purposes of paragraphs (7) and (9), I has responsibility for a child if I—

- (a) has custody or charge of the child for the time being, or
- (b) has parental responsibility for the child.

(11) An enforcement officer may take other enforcement action to facilitate the exercise of a power conferred on the officer by this regulation or regulation 17.

(12) An enforcement officer may only exercise a power under this regulation or regulation 17 if the officer considers that it is necessary and proportionate to do so.

(13) References in this regulation to a “constable” are to be read as including a police community support officer.

Power of entry

17.—(1) An enforcement officer may enter premises to take, or facilitate the taking of, enforcement action under regulation 16.

(2) An enforcement officer entering premises in accordance with paragraph (1) may—

- (a) use reasonable force to enter the premises;
- (b) take such other persons, equipment and materials onto the premises as appears to the officer to be appropriate.

(3) An enforcement officer entering premises in accordance with paragraph (1)—

- (a) if asked by a person on the premises, must show evidence of the officer's identity and outline the purpose for which the power is exercised;

- (b) os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, gadael y fangre wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi.

Troseddau a chosbau

18.—(1) Mae person sydd—

- (a) yn torri rheoliad 5(7), 6(6) neu 7(8),
- (b) heb esgus rhesymol, yn methu â chymryd camau sy'n ofynnol o dan reoliad 5(6), 6(5) neu 7(7), neu
- (c) heb esgus rhesymol, yn torri rheoliad 14(4),

yn cyflawni trosedd.

(2) Mae person sy'n rhwystro, heb esgus rhesymol, unrhyw berson rhag cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sydd, heb esgus rhesymol—

- (a) yn methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio a roddir gan swyddog gorfodaeth o dan reoliad 16(1), neu
- (b) yn torri cyfarwyddyd a roddir gan swyddog gorfodaeth o dan reoliad 16(3)(a), (4)(a) neu (b), (5)(a) neu (6)(a),

yn cyflawni trosedd.

(4) Mae trosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w chosbi ar euogfarn ddiannod drwy ddirwy.

(5) Mae adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984(1) yn gymwys mewn perthynas â throedd o dan y rheoliad hwn fel pe bai'r rhesymau yn is-adran (5) yn cynnwys—

- (a) cynnal iechyd y cyhoedd;
- (b) cynnal trefn gyhoeddus.

(6) Os profir bod trosedd o dan y Rheoliadau hyn a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol—

- (a) wedi ei chyflawni â chydysyniad neu ymoddefiad swyddog i'r corff hwnnw, neu
- (b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog o'r fath,

mae'r swyddog (yn ogystal â'r corff corfforedig) yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn, i gael achos yn ei erbyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(7) Ym mharagraff (6), ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforedig, yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforedig.

(1) 1984 p. 60. Amnewidiwyd adran 24 gan adran 110(1) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15).

- (b) if the premises are unoccupied or the occupier is temporarily absent, must leave the premises as effectively secured against unauthorised entry as when the officer found them.

Offences and penalties

18.—(1) A person who—

- (a) contravenes regulation 5(7), 6(6) or 7(8),
- (b) without reasonable excuse, fails to take the steps required under regulation 5(6), 6(5), or 7(7), or
- (c) without reasonable excuse, contravenes regulation 14(4),

commits an offence.

(2) A person who obstructs, without reasonable excuse, any person carrying out a function under these Regulations commits an offence.

(3) A person who, without reasonable excuse—

- (a) fails to comply with a compliance notice given by an enforcement officer under regulation 16(1), or
- (b) contravenes a direction given by an enforcement officer under regulation 16(3)(a), (4)(a) or (b), (5)(a) or (6)(a),

commits an offence.

(4) An offence under these Regulations is punishable on summary conviction by a fine.

(5) Section 24 of the Police and Criminal Evidence Act 1984(1) applies in relation to an offence under this regulation as if the reasons in subsection (5) included—

- (a) to maintain public health;
- (b) to maintain public order.

(6) If an offence under these Regulations committed by a body corporate is proved—

- (a) to have been committed with the consent or connivance of an officer of the body, or
- (b) to be attributable to any neglect on the part of such an officer,

the officer (as well as the body corporate) is guilty of the offence and liable to be prosecuted and proceeded against and punished accordingly.

(7) In paragraph (6), "officer", in relation to a body corporate, means a director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate.

(1) 1984 c. 60. Section 24 was substituted by section 110(1) of the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15).

(8) Caniateir i achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth gael ei ddwyn yn enw'r bartneriaeth yn hytrach nag yn enw unrhyw un neu ragor o'r partneriaid.

(9) Caniateir i achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan gorff anghorfforedig ac eithrio partneriaeth gael ei ddwyn yn enw'r corff yn hytrach nag yn enw unrhyw un neu ragor o'i aelodau ac, at ddibenion unrhyw achos o'r fath, mae unrhyw reolau llys sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel pe bai'r corff hwnnw yn gorff corfforedig.

(10) Mae adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925(1) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 yn gymwys mewn achos am drosedd a ddygir yn erbyn partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforedig.

(11) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth ar ei heuogfarnu o drosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu o gronfeydd y bartneriaeth.

(12) Mae dirwy a osodir ar gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth ar ei heuogfarnu o drosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu o gronfeydd y gymdeithas.

Hysbysiadau cosb benodedig

19.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw un y mae'r swyddog yn credu'n rhesymol—

- (a) ei fod wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau hyn, a
- (b) ei fod yn 18 oed neu drosodd.

(2) Hysbysiad yw hysbysiad cosb benodedig sy'n cynnig i'r person y'i dyroddir iddo y cyfle i gael ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd am euogfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig i—

- (a) awdurdod lleol, neu
- (b) person sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru at ddibenion cael taliad o dan y rheoliad hwn,

a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru eu dynodi hwy eu hunain o dan baragraff (2)(b).

(4) Pan fo awdurdod lleol wedi ei bennu yn yr hysbysiad rhaid iddo fod yn awdurdod (neu yn ôl y digwydd, unrhyw un o'r awdurdodau) yr ardal yr honnir bod y drosedd wedi ei chyflawni ynddi.

(8) Proceedings for an offence under these Regulations alleged to have been committed by a partnership may be brought in the name of the partnership instead of in the name of any of the partners.

(9) Proceedings for an offence under these Regulations alleged to have been committed by an unincorporated body other than a partnership may be brought in the name of the body instead of in the name of any of its members and, for the purposes of any such proceedings, any rules of court relating to the service of documents have effect as if that body were a body corporate.

(10) Section 33 of the Criminal Justice Act 1925(1) and Schedule 3 to the Magistrates' Courts Act 1980 apply in proceedings for an offence brought against a partnership or an unincorporated association other than a partnership as they apply in relation to a body corporate.

(11) A fine imposed on a partnership on its conviction for an offence under these Regulations is to be paid out of the partnership assets.

(12) A fine imposed on an unincorporated association other than a partnership on its conviction for an offence under these Regulations is to be paid out of the funds of the association.

Fixed penalty notices

19.—(1) An enforcement officer may issue a fixed penalty notice to anyone that the officer reasonably believes—

- (a) has committed an offence under these Regulations, and
- (b) is aged 18 or over.

(2) A fixed penalty notice is a notice offering the person to whom it is issued the opportunity of discharging any liability to conviction for the offence by payment of a fixed penalty to—

- (a) a local authority, or
- (b) a person designated by the Welsh Ministers for the purposes of receiving payment under this regulation,

as the notice may specify.

(3) The Welsh Ministers may designate themselves under paragraph (2)(b).

(4) Where a local authority is specified in the notice it must be the authority (or as the case may be, any of the authorities) in whose area the offence is alleged to have been committed.

(1) 1925 p. 86.

(1) 1925 c. 86.

(5) Pan ddyroddir hysbysiad i berson o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â throsedd—

- (a) ni chaniateir dwyn unrhyw achos am y drosedd cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y dyroddir yr hysbysiad;
- (b) ni chaniateir euogfarnu'r person o'r drosedd os yw'r person yn talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(6) Rhaid i hysbysiad cosb benodedig—

- (a) rhoi manylion rhesymol fanwl am yr amgylchiadau yr honnir eu bod yn ffurfio'r drosedd;
- (b) datgan y cyfnod pryd (oherwydd paragraff (5)(a)) na ddygir achos am y drosedd;
- (c) pennu swm y gosb benodedig;
- (d) datgan enw a chyfeiriad y person y caniateir talu'r gosb benodedig iddo;
- (e) pennu dulliau o dalu a ganiateir.

(7) Rhaid i'r swm a bennir o dan baragraff (6)(c) fod yn £60 (yn ddarostyngedig i baragraffau (8) a (9)).

(8) Caiff hysbysiad cosb benodedig bennu, os telir £30 cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau yn dilyn dyddiad yr hysbysiad, mai dyna swm y gosb benodedig.

(9) Os yw'r person y dyroddir hysbysiad cosb benodedig iddo eisoes wedi cael hysbysiad cosb benodedig o dan y Rheoliadau hyn neu Reoliadau a grybwyllir ym mharagraff (10)—

- (a) nid yw paragraff (8) yn gymwys, a
- (b) rhaid i'r swm a bennir fel y gosb benodedig fod—
 - (i) yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig a geir, £120;
 - (ii) yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig a geir, £240;
 - (iii) yn achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig a geir, £480;
 - (iv) yn achos y pumed hysbysiad cosb benodedig a geir, £960;
 - (v) yn achos y chweched hysbysiad cosb benodedig a geir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig a geir wedi hynny, £1920.

(10) Wrth gyfrifo nifer yr hysbysiadau cosb benodedig y mae person wedi eu cael, mae hysbysiadau cosb benodedig a ddyroddir i'r person hwnnw o dan y Rheoliadau a ganlyn i'w hystyried—

- (a) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020;

(5) Where a person is issued with a notice under this regulation in respect of an offence—

- (a) no proceedings may be taken for the offence before the end of the period of 28 days following the date the notice is issued;
- (b) the person may not be convicted of the offence if the person pays the fixed penalty before the end of that period.

(6) A fixed penalty notice must—

- (a) give reasonably detailed particulars of the circumstances alleged to constitute the offence;
- (b) state the period during which (because of paragraph (5)(a)) proceedings will not be taken for the offence;
- (c) specify the amount of the fixed penalty;
- (d) state the name and address of the person to whom the fixed penalty may be paid;
- (e) specify permissible methods of payment.

(7) The amount specified under paragraph (6)(c) must be £60 (subject to paragraphs (8) and (9)).

(8) A fixed penalty notice may specify that if £30 is paid before the end of the period of 14 days following the date of the notice, that is the amount of the fixed penalty.

(9) If the person to whom a fixed penalty notice is given has already received a fixed penalty notice under these Regulations or Regulations mentioned in paragraph (10)—

- (a) paragraph (8) does not apply, and
- (b) the amount specified as the fixed penalty is to be—
 - (i) in the case of the second fixed penalty notice received, £120;
 - (ii) in the case of the third fixed penalty notice received, £240;
 - (iii) in the case of the fourth fixed penalty notice received, £480;
 - (iv) in the case of the fifth fixed penalty notice received, £960;
 - (v) in the case of the sixth and any subsequent fixed penalty notice received, £1920.

(10) In calculating how many fixed penalty notices a person has received, fixed penalty notices issued to that person under the following Regulations are to be taken into account—

- (a) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020;

(b) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020.

(11) Beth bynnag y bo unrhyw ddull arall a bennir o dan baragraff (6)(e), caniateir talu cosb benodedig drwy dalu ymlaen llaw a phostio llythyr sy'n cynnwys swm y gosb (mewn arian parod neu fel arall) i'r person y nodir ei enw o dan baragraff (6)(d) i'r cyfeiriad a nodir.

(12) Pan fo llythyr yn cael ei anfon fel a grybwyllir ym mharagraff (11), ystyrir bod taliad wedi ei wneud ar yr adeg y byddai'r llythyr hwnnw wedi cael ei ddanfon yn nhrefn arferol y post.

(13) Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif—

(a) sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran y person a chanddo gyfrifoldeb am faterion ariannol—

(i) yr awdurdod lleol, neu

(ii) y person sydd wedi ei ddynodi o dan baragraff (2)(b),

a bennir yn yr hysbysiad cosb benodedig y mae'r achos yn ymwneud ag ef, a

(b) sy'n datgan bod y taliad am y gosb benodedig wedi dod i law, neu heb ddod i law, erbyn y dyddiad a bennir yn y tystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a nodwyd.

(14) Pan fo hysbysiad cosb benodedig wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad â'r drosedd honedig o dorri'r gofyniad yn rheoliad 14(4), mae cyfeiriadau yn y rheoliad hwn at "awdurdod lleol" i'w darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriadau at awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru.

Erllyn

20. Ni chaniateir dwyn achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn ond gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu unrhyw berson sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru.

(b) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020.

(11) Whatever other method may be specified under paragraph (6)(e), payment of a fixed penalty may be made by pre-paying and posting to the person whose name is stated under paragraph (6)(d), at the stated address, a letter containing the amount of the penalty (in cash or otherwise).

(12) Where a letter is sent as mentioned in paragraph (11), payment is regarded as having been made at the time at which that letter would be delivered in the ordinary course of post.

(13) In any proceedings, a certificate—

(a) that purports to be signed by or on behalf of the person with responsibility for the financial affairs of—

(i) the local authority, or

(ii) the person designated under paragraph (2)(b),

specified in the fixed penalty notice to which the proceedings relate, and

(b) which states that the payment of a fixed penalty was, or was not, received by the date specified in the certificate,

is evidence of the facts stated.

(14) Where a fixed penalty is issued in respect of the alleged offence of contravening the requirement in regulation 14(4), references in this regulation to a "local authority" are to be read as including references to a National Park authority in Wales.

Prosecutions

20. No proceedings for an offence under these Regulations may be brought other than by the Director of Public Prosecutions or any person designated by the Welsh Ministers.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 4.03 p.m. ar 11 Medi 2020

©©Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

First Minister, one of the Welsh Ministers
At 4.03 p.m. on 11 September 2020

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

W202009111013 09/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/984>

ISBN 978-0-348-20617-3



9 780348 206173